

JONES, ABEL ('Bardd Crwst '; 1830 - 1901), baledwr a chantwr pen ffair

Enw: Abel Jones
Ffugenw: Bardd Crwst
Dyddiad geni: 1830
Dyddiad marw: 1901
Rhiant: Jane Jones
Rhiant: Abel Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: baledwr a chantwr pen ffair
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Perfformio; Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Llanrwst, yn fab i Abel Jones, 'carrier,' a'i wraig Jane - bu'r ddau farw yn 1876, ill dau'n 74 oed. Yr oedd ganddo frawd, William, a fu farw yn 1893; yr oedd yntau'n 'gymeriad,' a hoffai beri i bont Llanrwst siglo, neu eto neidio i'r afon oddi ar big y bont. Dyn unlygeidiog oedd 'Bardd Crwst'; y mae darlun ohono yn *Cymru (O.M.E.)*, xxvii, 173, neu'r wyneb-ddalen i *Cerddi Cymru* (d.d.), cyf. i. Gwyddys ei fod yn canu yn 1864 beth bynnag, a chlywodd 'Elfyn' (R. O. Hughes) ef yn canu yn Abergele yn gynnar yn 1901 - y mae llawer sydd eto'n fyw wedi ei glywed. Bu ar un adeg yn byw yn yr Wyddgrug, 'mewn cwrt yn y Stryd Fawr,' ac edrydd [Ellis Edwards](#) y byddai'n troi i mewn i siop [Daniel Owen](#) y nofelydd am sgwrs. Canai nid yn unig yng Ngogledd Cymru ond yn y Deheudir hefyd, a seiliwyd amryw o'i faledau ar ddigwyddiadau yn y Deheudir. Y mae 69 o'i faledau ar gael. Gelwir ef yn 'faledwr breiniol,' a chan gofio diweddarwch ei gyfnod y mae ar un ystyr yn ffigur hanesyddol ym mywyd cymdeithasol Cymru - 'yr olaf o'r baledwyr mawr.' Bu farw yn y tloty yn Llanrwst yn 1901, 'yn 71 oed,' a chladdwyd ar 22 Mehefin.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Cyfeiriadau mynych yn *Cymru (O.M.E.)*, e.e. xxii, 30, xxvii, 173, etc., xxviii, 303, xlix, 41
rhagymadrodd D. Samuel i *Cerddi Cymru casgliad o ganeuon Cymreig, hen a diweddar*
B. B. Thomas, *Baledi Morgannwg* (1951) - y faled rhif xxxi
rhestr o'i faledau yn *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, vii, 64-70
cofrestr Eglwys Fair, Llanrwst, trwy garedigrwydd y rheithor
gwybodaeth gan Mr. A. Morley Jones, Llanrwst

Darllen Pellach

Tegwyn Jones, *Abel Jones, Bardd Crwst* (Capel Garmon 1989)

Erthygl Wicipedia: [Abel Jones \(Y Bardd Crwst\)](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732610](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

